

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos  
Fawrth, 5ed Chwefror 2019 yn yr  
Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 8.00 pm on Tuesday, 5<sup>th</sup>  
February 2019 at the Reading Room,  
Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Bryan Tomlins; y Cynghorwyr Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Aled Roberts a Phil Tomlins.  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Bryan Tomlins; Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts and Phil Tomlins.  
County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**275 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Sheila Davies, Lodwick Lloyd a Gwenno Piette am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**275 Apologies**

Councillors Sheila Davies, Lodwick Lloyd and Gwenno Piette apologised for their inability to attend the meeting.

**276 Datgelu Buddiant Personol ac Un sy'n Rhagfarnu**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Aled Roberts buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A190018 y cyfeirir ato yng nghofnod 285b) isod ac fe adawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar y mater.

**276 Disclosure of Personal and Prejudicial Interest**

Councillor Aled Roberts disclosed a personal and prejudicial interest in planning application A190018 referred to in Minute 285b) below and left the room during the consideration of the matter.

**277 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 8fed Ionawr 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8fed Ionawr 2019 fel rhai cywir.

**277 Minutes of the Monthly Meeting held on 8<sup>th</sup> January 2019**

The Minutes of the Meeting of the Council held on 8<sup>th</sup> January 2019 were confirmed as being a correct record.

**278 Materion yn codi o'r Cofnodion**

- (1) Cofnod 266(1) – Nodwyd fod y contractwyr wedi cytuno ail-baentio llinellau'r manau parcio ym Maes Parcio'r Waun ar ddydd Mawrth 26ain Chwefror yn ystod yr wythnos hanner tymor a chytunwyd gwneud trefniadau i baratoi amdanynt.
- (2) Cofnod 266(3) –Dywedodd y Cynghorwyr Phil Tomlins ei fod wedi mynd i'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a'l fod wedi bod yn

**278 Matters arising from the Minutes**

- (1) Minute 266(1) – It was noted that the contractors had agreed to re-paint the lines for the bays at the Waun Car Park on Tuesday 26<sup>th</sup> February during the half term week and it was agreed to make arrangements to prepare for them.
- (2) Minute 266(3) –Councillor Phil Tomlins stated that he had attended the Code of Conduct training and that it had been instructive and worthwhile. (Councillor

addysgiadol a gwerthchweil. (Ni fu modd i'r Cynghorydd Sheila Davies fod yn bresennol oherwydd salwch.)

Sheila Davies had failed to attend due to illness.)

## 279 Materion Ariannol

## 279 Finance Matters

**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

Denfer Morgan (Costau Swyddfa) - £120.37  
L & G Forestry (Coeden Nadolig) - £94  
Capel Seilo (Defnydd o'r Festri) - £15  
CP Llanon (Torri Porfa'r Man Chwarae a'r Maes Chwarae) - £150  
Defnydd o Chwiliwr Metal - £20

Denfer Morgan (Office Costs) - £120.37  
L & G Forestry (Christmas Tree) - £94  
Capel Seilo (Use of Vestry) - £15  
Llanon FC (Grass Cutting Playground and Playing Field) - £50  
Use of metal detector - £20

## 280 Terfyn Adran 137 2019-20

## 280 Section 137 Limit 2019-20

**PENDERFYNWYD** nodi taw'r swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 ar gyfer Cynghorau Bro a Thref yn 2019-20 yw £8.12am bob etholwr. Y nifer diweddrad o etholwyr yw 941 ac felly yr uchafswm a ellir ei wario yw £7,641.

It was **RESOLVED** to note that the appropriate sum for the purposes of Section 137(4)(a) of the Local Government Act 1972 (the 1972 Act) for Community and Town Councils in Wales for 2019-20 is £8.16. The up-to-date number of electors was 941 and therefore the maximum expenditure that could be incurred was £7,641.

## 281 Ceisiadau am Gymorth Ariannol 2019-20

## 281 Applications for Financial Assistance 2019-20

Rhodddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau a dderbyniwyd am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD**:

Consideration was given to the applications received for financial assistance and it was **RESOLVED**:

i) talu'r grantiau canlynol:

i) to make the following grants:

Cymdeithas Hanes Llansantffraed £59.94 ar gyfer cost y wefan  
Mynwent Gymunedol Eglwys Llan-santffraed - £100 sef cyfraniad i'r trethi dwr  
Eglwys Llansantffraed - £50 mewn cysylltiad a defnydd Neuadd y Pentref gan grwpiau o'r gymuned  
Mynwent Eglwys Dewi Sant, Llanrhystud (yn gwasanaethu trigolion Nebo - £50  
Capel Seilo (prynu gwresogydd) - £50  
Clwb Tennis Iau Llanon - £100

Llansantffraed History Society - £59.94 for website cost  
Llansantffraed Church Community Church Yard - £100 as a contribution to water rates  
Llansantffraed Church - £50 in respect of the use of Village Hall by community groups  
Dewi Sant Churchyard, Llanrhystud (serving Nebo area residents) - £50  
Capel Seilo (purchase of heater) - £50  
Llanon Junior Tennis Club - £100  
Hafan yr Efail Breakfast Club - £35

## Clwb Brechwast Hafan yr Efail - £35

- ii) gohirio cais Pwyllgor Neuadd Pentref a Meysydd Chwarae Llanon er mwyn cael mwy o wybodaeth am y gwariant o £2,000, copy o'r cyfrifon diweddaraf a gwybodaeth am unrhyw gais a wnaed i gyrrff cyllido arall am gymorth;
- iii) gohirio'r cais yn ymwneud a 'Cloncan Llanon' er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf;
- iv) gohirio cais Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion er mwyn gweld a fyddai Clwb Llangwryfon yn gwneud cais;
- v) gohirio'r cais a dderbyniwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 er mwyn derbyn cynnig o ffordd o gyfrannu gan y Cynghorydd Lowri Jones; a
- vi) peidio gwneud cyfraniad i Tenovus gan fod yna nifer o ddigwyddiadau codi arian wedi cymryd lle yn lleol yn ddiweddar.

- ii) to defer the application of the Llanon Village Hall and Playing Fields Committee in order to obtain further details of the £2,000 expenditure, a copy of the up-to-date accounts and information on any application made to other funding bodies for assistance;
- iii) to defer the application in respect of 'Llanon Chat' for discussion at the next meeting;
- iv) to defer the application received from the Ceredigion Young Farmers Clubs in order to ascertain whether an application would be forthcoming from the Llangwryfon Club;
- v) to defer the request received in respect of Ceredigion 2020 National Eisteddfod in order to receive a suggested method of contributing from Councillor Lowri Jones; and
- vi) not to agree to make a contribution to Tenovus as there had been several local money raising activities recently for national charities.

### 282 Y Man Chwarae

Dywedodd y Clerc fod y Gwaith o ailbaentio cyfarpar y man chwarae gan y Cyngor Sir mewn llaw..

Dywedodd y Cynghorydd Jim Hughes, a oedd wedi gwneud archwiliad mis Ionawr, fod angen newid y sedd plant bach ar y siglen a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc drefnu ei newid gan un newydd.

### 283 Datblygu'r Cyrtiau Tennis

Dywedodd y Clerc fod Alison Reed wedi dweud ei bod yn hapus gydag ansawdd yr arwyneb tarmac. Roedd Ms Reed hefyd yn gofyn am osod padiau diogelwch ar y pedwar post a oedd yn sail i'r fframwaith y bob pen i'r cwrw MUGA.

Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cael cadarnhâd yn ysgrifenedig gan y contractwyr y byddent yn dychwelyd i

### 282 Playground

The Clerk advised that the re-painting of the playground equipment by the County Council was in hand.

Councillor Jim Hughes, who had undertaken the January monthly inspection, advised that the child's seat on the swing should be replaced and it was **RESOLVED** to request the Clerk to arrange for its replacement.

### 283 Tennis Courts Development

The Clerk advised that Alison Reed had advised that she was satisfied with the quality of the tarmac surface. Ms Reed was also asking for safety padding to be placed on the four posts constituting the framework either end of the MUGA court. The Clerk advised that the County Council had received confirmation in writing from the contractors that they would be returning to uncover the holes for the two

dadorchuddio'r tyllau ar gyfer y ddau bostyn netiau tenis ar y cwrt MUGA. Roedd Ms Reed hefyd am ddwyn sylw'r Cyngor fod pyst netiau tenis sy'n sefyll ar pennau eu hun ar gael. Roedd Ms Reed hefyd wedi rhoi gwybod taw dymuniad y teulu oedd i godi plac er cof am ei chwaer, Non Lavarò.

#### **PENDERFYNWYD:**

- i) gofyn i'r Cyngor Sir i ofyn i'r contractwyr ddychwelyd i ddadorchuddio'r ddau dwll mewn pryd i'r cyrtiau fod ar gael yn ystod wythnos hanner tymor yr ysgolion;
- ii) i beidio a phrynnu pyst net sy'n sefyll are eu pennau eu hun;
- iii) derbyn y pris a roddwyd gan primp Play yn y swm o £431.84 ar gyfer y padiau diogelwch; a
- iv) bwrw 'mlaen gyda'r trefniadau ar gyfer plac coffa.

#### **284 Y Chalet**

Dywedodd y Clerc fod y cais am Grant y Loteri Cenedlaethol wedi cael ei wrthod a bod y llythyr gwrthod wedi'i ddosbarthu ganddo fe ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD** ystyried y ffordd orau o fwrw 'mlaen ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

#### **285 Ceisiadau Cynllunio**

Rhoddyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod:

- a) **A181169 - Hafan yr Efail, Heol Hafan-yr-Efail, Llanon. New Entrance Facade; Part Raised Roof to coincide with Existing o Create New Office Space on First Floor; External Works providing New Facilities, Landscaping & Parking Space.**  
Ymddiheurodd y Clerc am fethu cynnwys y cais hwn ar agenda'r cyfarfod blaenorol ac fe atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi gofyn am eu sylwadau mewn e-bost. Yn unol a'r sylwadau a dderbyniwyd, roedd wedi anfon sylw 'Dim Gwrthwynebiad' y

tennis net posts on the MUGA court. Ms Reed had also asked to draw the attention of the Council to the availability of free-standing tennis nets. Ms. Reed had also advised the Clerk that the wish of the family was that a plaque be erected in memory of her sister, Non Lavarò.

It was **RESOLVED**:

- i) to request the County Council to request the contractors to return to uncover the two holes in time for the courts to be available during the school half-term week at the end of this month;
- ii) not to proceed to obtain free-standing net posts;
- iii) to accept the quote submitted by Primo Play in the sum of £431.84 for the provision of safety padding; and
- iv) to proceed with arrangements for a commemorative plaque.

#### **284 The Chalet**

The Clerk stated that the application for National Lottery Grant had been refused and that the refusal letter had been circulated prior to the meeting.

It was **RESOLVED** to consider the best way forward for reporting to the next meeting.

#### **285 Planning Applications**

Consideration was given to the following Planning Applications:

- a) **A181169 - Hafan yr Efail, Heol Hafan-yr-Efail, Llanon. New Entrance Facade; Part Raised Roof to coincide with Existing o Create New Office Space on First Floor; External Works providing New Facilities, Landscaping & Parking Space.**  
The Clerk apologised for failing to include this application on the agenda for the previous meeting and reminded Members that he had sought their views by e-mail. In accordance with the responses received, he had forwarded the Council's

Cyngor i'r Cyngor Sir.

'No objection' comment to the County Council.

**a) A190018 Datblygiad Tai Anedd 34 Uned (gan gynnwys 10 o Unedau Tai Fforddiadwy). Tir tu cefn i Gylch Peris, Llanon.**

Fe atgoffodd y Clerc yr Aelodau ei fod wedi'i gadarnhau yn ystod y cyfnod Ymgynghori Cyn Cyflwyno Cais fod y safle arfaethedig wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad tai yn y Cynllun Datblygu Lleol ac felly fod yr egwyddor o ddatblygiad wedi'i sefydlu.

Roedd trigolion a oedd am gynnig sylwadau ar y datblygiad yn bresennol yn y cyfarfod a roddwyd caniatâd iddynt annerch y Cyfarfod. Y prif gwrthwynebiadau a godwyd oedd:

- diogelwch ar y briffordd mewn cysylltiad â'r fynedfa newydd a fyddai'n debyg o arwain at fwy o dagfeydd traffig ar yr A487
- colli preifatrwydd gan fod y tai newydd yn cael eu codi ar dir uwch y tu cefn i'r anheddau presennol
- effaith yr anheddau ychwanegol ar lefel y dŵr ar wyneb y ffordd.

Fe fu i'r Aelodau hefyd gwestiynu'r angen am fynedfa ar wahan i'r unedau tai fforddiadwy ac y dylidd integreiddio'r ddau set o anheddau.

Fe bwysleisiodd y Cadeirydd i'r rheiny a oedd yn bresennol yr angen i anfon eu sylwadauyn uniogyrchol i'r awdurdod cynllunio lleol.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad; ond yr hoffai'r Cyngor weld y tai fydd ar werth ar y farchnad agored a'r tai cymdeithasol ar y stad yn cael eu hintegreiddio a fod dim angen am ddau fynedfa i'r safle.

**c) A181203 - Land at Cae'r Bont, Nebo, Llanon. Erection of 8no. dwellings to include 3no. affordable, vehicular access and highways improvements.**

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

**b) A190018 Residential Development of 34 Units (including 10 Affordable Housing Units). Land rear of Cylch Peris, Llanon.**

The Clerk reminded Members that it had been ascertained during the Pre-application consultation period that the proposed site was designated for housing development in the Local Development Plan and that the principle of development had therefore been established.

Residents wishing to comment on the application were present at the meeting and were given permission by the Chairman to address the Meeting. The main objections raised were as follows:

- highway safety concerns with regard to the proposed new access and its probable result in increased traffic congestion on the A487
- the loss of privacy arising from the new houses being built on raised ground to the rear of existing properties
- the effect of the additional dwellings on the level of surface water.

Members also queried the need for a separate access for the affordable housing units and that both sets of dwellings should be integrated.

The Chairman emphasised to those present the need to make direct representations to the local planning authority.

Decision: No objection; however the Council would prefer to see the integration of the houses to be sold on the open market and the social housing on the estate and that there was no need for two entrances to the site.

**c) A181203 - Land at Cae'r Bont, Nebo, Llanon. Erection of 8no. dwellings to include 3no. affordable, vehicular access and highways improvements.**

Decision: No objection.

**286 Yr Adolygiad o Gynghorau Bro a Thref**

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y papurau isod a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru:

- Diweddariad Rhagfyr 2018
- Meysydd Gweithredu

ac i fonitro'r cynnydd yn y mater.

**287 Presenoldeb aelodau'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor.**

Cytunwyd gohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

**288 Unrhyw Fater Arall**

a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Dennis Morgan at y canlynol:

- Y bin a dynnwyd I ffwrdd gan y Cyngor Sir yn Stryd y Bont. Atgoffwyd y Cyngor ei god wedi cael ei gamddefnyddio gyda gwastraff cartref yn cael ei roddi ynddo fe a bod y Cyngor Sir eisoes wedi gwrthod dod a fe 'nôl.
- Goleuadau diffygiol yn Nebo. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ei fod wedi eu dwyn i sylw'r swyddogion.

b) Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins fod un bin wedi'i osod yn ei le a bod dal angen gwneud y llall. Dywedodd hefyd fod yr arwyddion llwybrau troed wedi'u gosod y neu lle. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi archebu'r arwydd ar gyfer y man chwarae.

c) Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Tomlins at bryderon am goed a oedd yn hongian dros ffyrdd Heol Non a Chylch Cledan.

d) Adroddodd y Clerc mater a godwyd gan y Cynghorydd Sheila Davies, sef difrod a achoswyd i eiddo yn Stryd y Capel gan gerbyd amaethyddol mawr ac yn holi a oedd yna gyfyngiad pwysau yn ei le. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards nad oedd yna un a chytunwyd cyfleu'r gwybodaeth hwn i'r Cynghorydd Davies.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15 p.m.

**286 Review of Town and Community Councils**

It was **RESOLVED** to note the contents of the following papers received from Welsh Government:

- December 2018 Up-date
- Areas for Action

and to monitor progress on the matter.

**287 Attendance of members of the public at meetings of the Council.**

It was agreed to defer this matter until the next meeting.

**288 Any Other Business**

a) Councillor Dennis Morgan referred to the following:

- The bin which had been taken away by the County Council on Bridge Street. The Council was reminded that it had been mis-used with household waste being deposited in it and that the County Council had previously refused to reinstate it.
- Defective lights in Nebo. County Councillor Dafydd Edwards confirmed that they had been reported to the officers.

b) Councillor Phil Tomlins stated that one bin had been put up and one remained to be done. He also stated that the footpath signs had been put up. The Clerk confirmed that the playground sign had been ordered.

c) Councillor Bryan Tomlins referred to concerns about overhanging trees at Heol Non and Cylch Cledan.

d) The Clerk reported a matter raised by Councillor Sheila Davies, namely damage caused to a property on Stryd y Capel by a large agricultural vehicle and asked whether there was a weight restriction on the road. County Councillor Dafydd Edwards stated that this was not the case and it was agreed that this information be conveyed to Councillor Davies.

The meeting concluded at 9:15 p.m.